**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** **ARD 14-01(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mawrth 31 Gorffennaf 2001 |
| **Amser:** | 9.30am hyd 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canol a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Maesyfed |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie | Pennaeth yr Adran Amaethyddiaeth |
| Emyr Roberts (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Economaidd |
| Jasper Roberts (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Gwledig |
| Gareth Jones (eitem 3) | Pennaeth Gweithrediadau Clwy’r Traed a’r Genau |
| Tony Edwards (eitem 3) | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Rory O’Sullivan (eitem 3) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Amaethyddol |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, cyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Delyth Evans a Huw Lewis.

1.2 Datganodd y Cadeirydd fod iddo fudd fel partner mewn busnes ffermio. Dywedodd Peter Rogers fod iddo fudd fel ffermwr, dywedodd Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio a dywedodd Kirsty Williams ei bod yn briod â ffermwr.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd aelodau o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd i ran gyntaf y cyfarfod. Gofynasid hefyd i Kirsty Williams ymuno â'r cyfarfod oherwydd ei diddordeb yn yr achosion o glwy'r traed a'r genau ar Fannau Brycheiniog yn ei hetholaeth.

**Eitem 2: Cynllun Adfywio Gwledig -** ARD 14-01(p1)

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem gan ddweud ei fod yn cymeradwyo'r cynllun a baratowyd gan grwp Tasg a Gorffen y Bartneriaeth Wledig, ac a gymeradwywyd yn dilyn hynny gan y Bartneriaeth Wledig yn ei chyfanrwydd, a diolchodd i'r aelodau am eu gwaith. Nododd y prif gamau y manylid amdanynt yn y Cynllun Adfywio Gwledig a dywedodd mai bwriad y Cynllun oedd helpu busnesau a oedd wedi eu heffeithio, yn y tymor byr, gan gynnig cymorth iddynt er mwyn iddynt fod mewn sefyllfa gadarn cyn gynted ag y byddai'r clwy wedi ei ddileu.

2.2 Ychwanegodd mai'r camau eraill a oedd yn cael eu datblygu oedd y Grwp Dyfodol Ffermio, a oedd yn ystyried strategaeth dymor hir ar gyfer ffermio yng Nghymru, a chynllun ymyrraeth ar gyfer y farchnad wyn ysgafn yn yr hydref.

2.3 Gorffennodd gan ddweud bod y pecyn yn cymharu'n ffafriol â chamau a ddarparwyd yn Lloegr a'i fod wedi cyfarwyddo awdurdodau lleol i ddechrau dosbarthu arian ar unwaith er bod angen i'r Cynulliad gymeradwyo'r Adroddiad ar y Grant Arbennig yn ei gyfarfod llawn ar ôl y gwyliau.

2.4 Yr oedd gwaith yn mynd rhagddo er mwyn ailddosbarthu tanwariant o'r swm gwreiddiol o £12 miliwn a ddosbarthwyd i awdurdodau lleol. Nododd y Gweinidog fod cwmpas y cyllid gwreiddiol wedi bod yn fwy cyfyngedig felly nid oedd y ffaith fod awdurdod heb wario'i ddyraniad llawn yn golygu o reidrwydd nad oedd arno angen cymorth.

2.5 Yr oedd rhai aelodau'n feirniadol o'r ffordd yr oedd y cyllid gwreiddiol wedi ei ddosbarthu a'i dargedu. Yr oeddent hefyd yn holi pa gyfarwyddyd a roddwyd i awdurdodau lleol ynghylch defnyddio cyllid ac a oedd yn briodol i awdurdodau lleol trefol fod wedi derbyn mwy o arian.

2.6 Dywedodd y Gweinidog y byddai'n trefnu bod yr aelodau'n cael copi o'r cyfarwyddyd a ddosbarthwyd i awdurdodau lleol. Ychwanegodd fod y clwy wedi effeithio ar fusnesau mewn trefi marchnad ac mewn canolfannau trefol eraill yn ogystal ag ardaloedd gwledig. Er hyn, rhoddid blaenoriaeth i ardaloedd gwledig wrth gyllido a byddid yn gofyn i asiantaethau dargedu cyllid yn unol â

hynny.

2.7 Yng nghyswllt arolygu’r defnydd o gyllid cadarnhaodd y Gweinidog fod gan awdurdodau lleol hyd fis Rhagfyr i ymrwymo cyllid ac y byddai’n rhaid iddynt wedyn gyflwyno manylion yn nodi sut y gwariwyd y grant. Teimlai na fyddai’n briodol dosbarthu cyllid yn ganolog ac anogodd awdurdodau lleol i weithredu systemau a oedd yn gyflym ac yn ddiogel. Byddai unrhyw arian na fyddai wedi ei wario cyn diwedd Rhagfyr yn cael ei ailddosbarthu.

2.8 Cadarnhaodd y Gweinidog na fyddai busnesau amaethyddol a oedd yn ymwneud â ffermio yn unig yn gallu derbyn cymorth drwy’r Grant Arbennig gan y byddai hyn yn cael ei ystyried fel cymorth gwladol gan yr UE. Byddai’n rhaid i unrhyw gais am gymorth ychwanegol ar gyfer ffermio gael ei wneud ar sail y DG yn ei chyfanrwydd ac nid oedd hyn yn cael ei gynnig ar hyn o bryd.

2.9 Cydnabyddid bod y cynllun yn un sylweddol, ond teimlai nifer o’r aelodau nad oedd yn ddigon yn ei gyfanrwydd nac ychwaith ar gyfer grwpiau penodol fel y sector mentrau bach a chanolig eu maint. Er enghraifft, yr oedd y Bwrdd Croeso wedi gwneud cais am bron ddwywaith gymaint â’r swm a ddyrannwyd iddo dan y Cynllun. Nododd y Gweinidog fod cynigion yn aml yn debygol o fod yn fwy na dyraniadau ac, yn ychwanegol at ddyraniad y Bwrdd Croeso, yr oedd arian ar gael i gefnogi cynlluniau twristiaeth integredig.

2.10 Yr oedd y pecyn yn cael ei ariannu’n bennaf ag arian a ailddosbarthwyd o ganlyniad i danwariant cyllidebau eraill y Cynulliad ac â rhywfaint o arian canlyniadol dan fformiwla Barnett. Mynegodd yr aelodau bryder y byddai hyn yn effeithio ar feysydd eraill yng nghyllideb y Cynulliad ac y dylid gwneud cais am arian ychwanegol gan y Trysorlys. Awgrymwyd bod Cymru’n dibynnu mwy ar amaethyddiaeth a thwristiaeth na rhannau eraill o’r DG ac, o ganlyniad, na fyddai’n briodol defnyddio fformiwla Barnett.

2.11 Awgrymodd un aelod y dylai’r pwyllgor, wrth ddelio gyda’r argyfwng yn dilyn clwy’r traed a’r genau, bwysleisio’r achos dros gael adnoddau ychwanegol gan y Trysorlys i’w dyrannu yn ôl yr effaith gyffredinol ar yr economi wledig yng Nghymru, gan gynnwys twristiaeth wledig, fel cyfran o’r effaith gyffredinol drwy’r DG yn hytrach na chyllideb ganlyniadol dan fformiwla Barnett. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn dymuno cymryd pleidlais ond ei fod yn teimlo y byddai’r rhan fwyaf o aelodau’r pwyllgor yn cefnogi’r egwyddor hon.

2.12 Atgoffaodd y Gweinidog yr aelodau fod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn ariannu glanhau a diheintio a bod y Trysorlys hefyd yn talu iawndal i ffermwyr. Yr oedd £100m wedi ei dderbyn yn barod gan y Trysorlys ar gyfer hyn felly nid oedd yn gywir dweud nad oedd Cymru wedi derbyn unrhyw arian ychwanegol gan y llywodraeth ganolog.

2.13 Yr oedd rhai aelodau’n poeni nad oedd yr asiantaethau arweiniol a oedd wedi eu nodi yn y cynllun yn arbenigwyr mewn datblygu gwledig. Eglurodd y Gweinidog nad oedd yn disgwyl i’r asiantaethau arweiniol weithio ar eu pennau eu hunain, ond yn hytrach mewn partneriaeth gydag eraill a oedd â’r

wybodaeth leol angenrheidiol.

2.14 Gwnaeth un o'r aelodau gyfeiriad penodol at ardal De Powys a gofynnwyd a fyddai modd cael cymorth ychwanegol o Ewrop, o ystyried bod yr ardal hon y tu allan i'r ffin Amcan 2. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n edrych ar y mater ymhellach.

2.15 Eglurodd y swyddogion fod yr Awdurdod Datblygu wedi rhoi'r arweiniad ar gyfer y Gronfa Adfywio Cymunedau gan ei bod wedi ei chynllunio er mwyn adeiladu ar y Cynllun Trefi Marchnad. Bwriedid i brosiectau a fyddai'n cael eu hariannu dan y cynllun gael eu harwain yn lleol. Er y byddent yn cael eu hasesu ar sail eu cyfraniad i adfywiad economaidd cymunedau, gobeithid hefyd y byddent yn cyfrannu tuag at y manteision cymdeithasol ehangach a welid yn y prosiectau Cymunedau yn Gyntaf. Byddai'r defnydd a wneid o'r gronfa hefyd yn cael ei ddylanwadu gan y gwaith a gomisiynid gan Ganolfan Gydweithredol Cymru ar wasanaethau adwerthu gwledig a oedd i fod i gael ei gyflwyno i'r Bartneriaeth Wledig ym mis Hydref.

**Gweithredu:** Y cyfarwyddyd a roddwyd i awdurdodau lleol ynghylch dosbarthu'r Grant Arbennig i'w ddosbarthu i aelodau'r pwyllgor – **Ysgrifenyddiaeth/Is-adran Polisi Economaidd**

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog -** ARD 14-01(p2)

3.1 Cadarnhaodd y Gweinidog fod profion gwaed wedi eu gwneud ar 800 yn rhagor o ddefaid ar Fannau Brycheiniog a bod gwrthgorffynnau clwy'r traed a'r genau wedi eu canfod mewn 61 o'r rhain.

3.2 Yn dilyn camau a gymerwyd gan y Bwrdd Ymyrraeth i gyhoeddi canllawiau diwygiedig a sicrhau'r safonau iechyd a diogelwch angenrheidiol ar gyfer gweithwyr mewn lladd-dai, cyhoeddodd y Gweinidog ei fwriad i ailddechrau gweithredu'r Cynllun Dros Ddeng Mis ar Hugain yng Nghymru ddechrau Awst.

3.4 Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro canlyniadau gweithredu polisi brechu er mwyn rheoli lledaeniad y clwy. Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau isod:

- byddai brechu'n rhwystro ymdrechion i ailddechrau allforio;
- cyn y gallai brechu cylch fod yn effeithiol, byddai angen sefydlu maint yr ardal heintiedig. Nid oedd hyn wedi ei wneud eto ym Mannau Brycheiniog;
- nid oedd brechu 100% yn effeithiol mewn defaid;
- byddai'n rhaid i gig o anifeiliaid wedi eu brechu gael ei labelu fel cig o'r fath ac, o ganlyniad, byddai'n rhaid i'w bris gwerthu fod yn is;
- byddai brechu'n effeithio ar dwristiaeth ar Fannau Brycheiniog gan y byddai'n rhaid codi ffensys o amgylch ardaloedd a gwahardd cerddwyr o ardaloedd lle nad oedd statws y clwy'n glir;
- er bod y polisi lladd presennol yn annymunol, profwyd ei fod yn gweithio.

3.5 Pwysodd aelodau'r pwyllgor ar y Gweinidog i gydnabod bod angen cynnal trafodaeth agored a

deallus gyda’r rhai hynny nad oedd yn arddel yr un syniadau ynghylch brechu.

3.6 Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai angen cymeradwyaeth Ewropeaidd i gais gan lywodraeth y DG cyn y gellid cyflwyno polisi brechu. Gallai’r Cynulliad ofyn i lywodraeth y DG ystyried cais o’r fath.

3.7 Er bod rhai cynnyrch yn cael eu mewnforio i’r DG o wledydd lle’r oedd clwy’r traed a’r genau’n bresennol, nododd y pwyllgor fod y cynnyrch hyn yn dod o ranbarthau o fewn y gwledydd hynny a oedd wedi eu nodi fel rhanbarthau a oedd yn rhydd o glwy’r traed a’r genau. Yr oedd mewnforion o’r fath yn cael eu gwneud ar sail rheolyddion pacio a labelu llym ac yr oedd yn rhaid i bris y farchnad fod yn is.

3.8 Defnyddiwyd polisi brechu cylch yn yr Iseldiroedd. Pe bai’r statws rhydd o’r clwy’n cael ei adfer yn y wlad gallai ddechrau allforio unwaith eto, gan fod yr holl anifeiliaid a gafodd eu brechu wedi eu lladd. Yr oedd llwyddiant y polisi brechu cylch yn yr Iseldiroedd yn adlewyrchu’r ffaith fod y clwy wedi ei ganfod yn gynnar a bod ei ledaeniad wedi ei gyfyngu. Bu’r sefyllfa’n anos yn y DG gan fod y clwy heb ei ganfod am rai wythnosau a chan ei fod wedi lledaenu i bob cyfeiriad. Nododd y pwyllgor y byddai polisi brechu cylch o amgylch pob achos wedi arwain at fwy o ddifa nag a ddigwyddodd dan y polisi profi a difa presennol.

3.9 Yr oedd swyddogion y Cynulliad yn cynnal trafodaethau gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch ffyrdd posibl o ddifa dim ond yr anifeiliaid hynny ar y Bannau yr oedd profion am wrthgorffynnau clwy’r traed a’r genau’n gadarnhaol ynddynt, yn hytrach na diadelloedd cyfan. Nododd yr aelodau, fodd bynnag, nad oedd y rhagolygon ar gyfer hyn yn dda ac y byddai gofynion polisi o’r fath, o safbwynt cyfyngiadau a phrofion, yn effeithio ar y ffordd y gellid mynd i’r afael â’r clwy mewn ardaloedd eraill. Byddai’r polisi hefyd yn mynd yn groes i’r cyngor milfeddygol cyfredol a oedd yn dal i gael ei roi, sef bod gweithredu’n gyflym yn hanfodol er mwyn rhwystro’r clwy rhag lledaenu.

3.10 Yr oedd heintusrwydd y clwy a’r ffaith fod lefelau gwrthgorffynnau’n gostwng ar ôl naw mis yn golygu ei bod yn bosibl i’r clwy gylchredeg yn barhaus o fewn diadelloedd gwasgaredig fel y rhai ar y Bannau oni chymerid camau ataliol pendant.

3.11 Holwyd y Gweinidog a oedd wedi ystyried siarad gyda ffermwyr ynghylch y posibilrwydd o iawndal am golli marchnad o ganlyniad i frechu. Cadarnhaodd mai’r cynllun cymorth storio preifat a’r cynllun difa oedd yr unig ddewisiadau a oedd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Byddai camau’n cael eu cymryd er mwyn helpu i ailsefydlu diadelloedd cynefin cyn gynted ag y byddai hynny’n bosibl. Nododd y pwyllgor y byddai’r Comisiwn Ewropeaidd yn galw am fwy o brofion gwaed ar raddfa fawr cyn ystyried codi’r gwaharddiad allforio pe na bai anifeiliaid wedi eu brechu’n cael eu difa, er mwyn cael sicrwydd bod y clwy wedi ei ddileu.

3.12 Yn ogystal â delio gydag anifeiliaid heintiedig yn yr ardal lle’r oedd y clwy wedi ei ganoli ar y Bannau, cadarnhaodd y swyddogion fod profion gwaed yn cael eu gwneud ar gyrion yr ardal er mwyn ceisio canfod pa mor bell yr oedd y clwy wedi lledaenu.

3.13 Holwyd y Gweinidog a oedd wedi ystyried defnyddio gwartheg fel anifeiliaid gwarchod ymhlith diadelloedd o ddefaid, a beth oedd ganddo i'w ddweud ynghylch yr awgrym bod anifeiliaid heintiedig wedi eu hallforio i Ffrainc cyn y dyddiad y credid bod y clwy wedi amlygu ei hun yn y DG. Yr oedd gwartheg yn cael eu defnyddio ond nid oedd y cynllun yn llwyddiannus iawn gan ei bod yn ymddangos bod defaid yn fwy tueddol o ddal y math arbennig hwn o'r firws. Yr oedd awdurdodau Ffrainc wedi cadarnhau bod eu profion hwy ar anifeiliaid a fewnforiwyd ym mis Medi yn anghywir. Yr oedd y swyddogion yn ffyddiog nad oedd clwy'r traed a'r genau yn y DG cyn yr achos cyntaf yn Heddon on the Wall.

3.14 Gofynnwyd i'r Gweinidog a allai ddweud pa bryd y tybid bod y clwy wedi dechrau lledaenu i'r mynydd. Yr oedd y profion a wnaethpwyd hyd yn hyn yn awgrymu bod y clwy wedi bod ar y Bannau ers tro, a hynny mae'n debyg er pan gafodd yr anifeiliaid eu troi allan yn y gwanwyn. Yr oedd profion wedi dechrau cael eu gwneud yn barod mewn ardaloedd mynyddig eraill. Byddai hyn yn golygu llawer iawn o waith ond yr oedd y canlyniadau cyntaf yn awgrymu nad oedd y clwy'n endemig ar y mynyddoedd.

3.15 Nid oedd unrhyw ladd-dy ar gael i ladd anifeiliaid yn ardal heintiedig Bannau Brycheiniog. Cadarnhaodd y swyddogion eu bod wedi codi'r mater hwn yn barod gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac y byddent yn gwneud hynny eto.

3.16 Holwyd y Gweinidog ynghylch y camau yr oedd eu hangen er mwyn caniatáu allforion o ranbarthau nad oedd wedi eu heintio yng Nghymru. Yn ogystal â chymeradwyaeth y Comisiwn, byddai angen sicrhau bod yr Aelod-wladwriaethau'n cytuno drwy'r Pwyllgor Milfeddygol Sefydlog. Cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd yn debygol y byddent yn cymeradwyo allforio tra'r oedd y clwy ar y Bannau.

3.17 Cadarnhaodd y swyddogion fod rhai o'r profion a wnaethpwyd ar anifeiliaid a oedd wedi eu difa ym Môn wedi dangos arwyddion o glwy'r traed a'r genau, gan gynnwys un achos mewn anifeiliaid o un o'r ffermydd a oedd wedi gwrthod y cwl yn wreiddiol.

3.18 Wrth drafod atal iawndal ar gyfer costau glanhau, gwnaethpwyd y pwyntiau isod:

- yr oedd y gwaith glanhau a diheintio rhagarweiniol yn parhau; dim ond y glanhau terfynol oedd wedi ei atal. O ganlyniad, yr oedd y gwaith o lanhau a diheintio wedi dod i ben neu yn dod i ben ar 141 o ffermydd ac nid oedd wedi ei ddechrau ar 43 fferm arall;
- yr oedd manylion am y costau yng Nghymru wedi eu rhoi i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i gael eu dadansoddi. Gobeithid y gellid gwneud cyhoeddiad ynghylch y ffordd ymlaen cyn bo hir. Yr oedd yr ystyriaeth gychwynnol o'r ffigyrau'n dangos bod cyfartaledd y costau glanhau yng Nghymru yn is nag yn Lloegr a bod rhai o'r ffigyrau a ddyfynnwyd gan y cyfryngau yn llawer rhy uchel;
- ni fyddai atal yr iawndal yn cael unrhyw effaith ar godi rhybuddion Ffurflen D. Cyn gynted ag y byddai'r gwaith glanhau terfynol wedi ei gwblhau, gellid ailstocio hyd yn oed os oedd rhai

rhybuddion Ffurflen D yn yr ardal o hyd. Gofynnwyd i'r Prif Swyddog Milfeddygol ddarparu nodyn ynghylch y cynnydd a oedd wedi ei wneud er mwyn codi rhybuddion Ffurflen D yng Ngogledd Powys.

3.20 Holwyd y Gweinidog ynghylch adroddiadau diweddar bod ffermydd yn cael eu heintio'n fwriadol. Pwysleisiodd y Gweinidog y dylai ffermwyr gadw at y safonau bio-ddiogelwch uchaf posibl er mwyn rhwystro lledaeniad anfwriadol y clwy. Apeliodd hefyd ar unrhyw un a oedd yn rhoi gwybod am achosion amheus o heintio i roi enwau'r rhai hynny a oedd yn gysylltiedig ynghyd â thystiolaeth i gefnogi'r honiad.

3.21 Cadarnhaodd y Gweinidog na chafwyd unrhyw achos hysbys o gerddwyr yn cyfrannu tuag at ledaeniad clwy'r traed a'r genau. Gofynasid i awdurdodau lleol arolygu effaith cau llwybrau ac asesu peryglon agor llwybrau.

3.22 Wrth drafod clirio safle Mynydd Epynt, gofynnwyd i'r Gweinidog sicrhau bod pob gwybodaeth berthnasol ar gael yn gwbl ddirwystr i'r rhai hynny a oedd yn gysylltiedig er mwyn hwyluso dealltwriaeth. Yr oedd y Prif Swyddog Milfeddygol wedi ysgrifennu at drigolion lleol yn ddiweddar gan egluro'r broses lanhau. Yr oedd lludw'n cael ei gludo ymaith mewn tryciau wedi eu selio ac yn cael ei gario i Swydd Gaerloyw i gael ei waredu.

3.23 Yr oedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi cytuno i gais gan y DG am gynllun cymorth storio preifat i brynu wyn yr hydref. Yr oedd y swyddogion hefyd yn edrych ar gynllun i ddelio gydag wyn ysgafn heb farchnad bosibl. Pwyswyd ar y Gweinidog i ddarparu manylion cyn gynted ag y byddai hynny'n bosibl.

3.24 Yr oedd safle gwaredu gwastraff ger Wrecsam wedi cyhoeddi nad oedd yn bwriadu derbyn mwy o gyrff anifeiliaid ar ôl diwedd Awst. Gofynnwyd i'r Gweinidog gadarnhau hyn. Dywedodd mai mater gweithredol oedd hwn i'w gytuno rhwng gweithredwyr y safle a'r Bwrdd Ymyrraeth. O fewn y Cynulliad, y Gweinidog dros yr Amgylchedd oedd yn gyfrifol amdano.

3.25 Cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd unrhyw gynlluniau i bennu parth gwahardd 10 cilomedr o amgylch y caeau a ddefnyddid ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol pan fyddai'n dod i ben. Nid oedd unrhyw sail i'r sïon a oedd ar led.

**Gweithredu:** Nodyn ynghylch y cynnydd gyda'r gwaith er mwyn codi rhybuddion Ffurflen D yng Ngogledd Powys. (Ceir copi o'r nodyn a ddarparwyd yn atodiad 1) **– Prif Swyddog Milfeddygol**

**Eitem 4: Dyfodol Ffermio -** ARD !3-01(p2)

4.1 Cytunodd y pwyllgor i ohirio'r drafodaeth hyd yr hydref.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod diwethaf -** ARD 13-01(min)

5.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.



---

**Atodiad 1**

**CLWY'R TRAED A'R GENAU: NODYN YNGHYLCH CODI CYFYNGIADAU FFURFLENNI D**

1. Cafodd y cyfyngiadau yn yr Ardaloedd Amddiffyn o amgylch yr achosion yn Llanfair Caereinion eu codi ddoe.
2. Mae'r profion gwaed a'r archwiliadau ar glwstwr Aberriw/Yr Ystog bellach wedi'u cwblhau. Mae llond dwrn o gwestiynau'n dal heb eu datrys a gobeithiwn wneud hynny heddiw. Mae'r gwaith papur angenrheidiol ar y gweill a chaiff ei anfon i Page Street cyn gynted ag y bydd yn barod. A bwrw bod popeth yn iawn, dylai fod yn bosibl codi'r cyfyngiadau yn yr Ardaloedd Amddiffyn yr wythnos nesaf.
3. Mae'r gwaith ar glwstwr Y Grysmwnt wedi'i gwblhau. Mae'r cyfyngiadau wedi'u codi mewn tair Ardal Amddiffyn o amgylch FMD2001/272/429 a 490. Cyn y gellir codi'r cyfyngiadau yn nhair Ardal Amddiffyn arall y clwstwr, rhaid disgwyl i'r gwaith gael ei orffen y tu hwnt i'r ffin yn Lloegr. Mae'r is-adran yn gobeithio gorffen y gwaith erbyn diwedd yr wythnos nesaf.
4. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau ar y clwstwr o amgylch FMD2001/1385 yn Aberhonddu, ond bydd y camau nesaf yn dibynnu ar y sefyllfa mewn rhannau eraill o'r Bannau.
5. Mae'r gwaith o gynnal profion gwaed ar y clwstwr o amgylch Y Gelli/Llanbedr Castell-paen bron â'i orffen.
6. Heddiw cynhelir un ymweliad terfynol i gynnal profion ym Mhontnewydd ar Wy.
7. Yn yr un modd, cynhelir un ymweliad terfynol i gynnal profion ar y Mynydd Du heddiw.
8. Bydd profion yn dal i gael eu cynnal ar glwstwr Talgarth.

**W A Edwards**
Prif Swyddog Milfeddygol
3 Awst 2001